

## Ffurflen gais

### Am y ffurflen hon

Dim ond os ydych chi'n dechrau cwrs newydd ar neu wedi 1 Awst 2024 ddylech chi lenwi'r ffurflen hon.

Dim ond unwaith fydd angen i chi ymgeisio am Fenthyciad Doethuriaeth Ôl-raddedig.

Os gwnaethoch chi ymgeisio y llynedd ac rydych yn parhau gyda'ch cwrs eleni, does dim angen i chi lenwi'r ffurflen hon. Byddwn yn cysylltu â chi gyda manylion eich taliadau cyn dechrau pob blwyddyn o'ch cwrs.

Rydym yn croesawu ceisiadau Cymraeg. Ni fydd hyn yn arwain at oedi i anfon ymateb.

Gallwch ymgeisio ar-lein ar [www.cyllidmyfyrwrycymru.co.uk](http://www.cyllidmyfyrwrycymru.co.uk) a dyma'r ffordd gyflymaf i ymgeisio.

### Dyddiad cau

Mae'r dyddiad cau naw mis wedi diwrnod cyntaf blwyddyn olaf eich cwrs.

### Cyn i chi gwblhau'r ffurflen hon

Mae angen i chi ddarllen yr wybodaeth ar [www.cyllidmyfyrwrycymru.co.uk](http://www.cyllidmyfyrwrycymru.co.uk) ynghylch y Benthyciad Gradd Doethuriaeth Ôl-raddedig. Mae'n bwysig eich bod yn darllen a deall yr holl wybodaeth yma cyn i chi ymgeisio.

Os nad ydych chi'n siŵr os yw'ch cwrs yn gymwys ar gyfer Benthyciad Gradd Doethuriaeth Ôl-raddedig, dylech siarad gyda'ch prifysgol.

Byddwch chi angen cael y 'Nodiadau Ategol Cais Benthyciad Gradd Doethuriaeth Ôl-raddedig' wrth law i lenwi'r ffurflen gais hon. Ewch i [www.cyllidmyfyrwrycymru.co.uk](http://www.cyllidmyfyrwrycymru.co.uk) i'w lawrlwytho.

### Hysbysiad Preifatrwydd

I gael gwybod sut fyddwn ni'n defnyddio'r wybodaeth a ddarparwch, ewch i [www.cyllidmyfyrwrycymru.co.uk/hysbyseb-preifatrwydd](http://www.cyllidmyfyrwrycymru.co.uk/hysbyseb-preifatrwydd) i ddarllen ein Hysbysiad Preifatrwydd cyn llenwi'r ffurflen hon.



## Sut i gwblhau'r ffurflen hon

- Dilynwch y cyfarwyddiadau, byddwn yn rhoi gwybod i chi pa gwestiynau sydd angen i chi eu hateb a pha rai allwch chi eu gadael.
- Mae angen i chi gwblhau pob un o'r cwestiynau gofynnol. Bydd unrhyw wybodaeth sydd ar goll yn oedi eich cais.
- Os byddwn yn gofyn am ddogfennau ategol, byddwn eu hangen cyn y gellir derbyn eich cais. Bydd unrhyw ddogfennau ategol sydd ar goll yn oedi eich cais.

## Defnyddiwch y nodiadau cefnogol i'ch helpu i gwblhau eich cais



Ble byddwch yn gweld yr eicon yma, mae'n golygu fod yna wybodaeth atodol yn y 'Nodiadau Cais Benthyciad Gradd Doethuriaeth Ôl-raddedig'.

Gallai hyn fod yn wybodaeth am sut i ateb cwestiwn neu adran neu gyfarwyddyd i anfon dogfennau ategol penodol.

Darllenwch y nodiadau – os na fyddwch chi'n ateb cwestiwn neu adran yn gywir neu os na fyddwch chi'n cynnwys y dogfennau rydym eu hangen, bydd yn achosi oedi gyda'ch taliadau.

Gallwch ddod o hyd i'r nodiadau hyn ar [www.cyllidmyfyrwrcymru.co.uk](http://www.cyllidmyfyrwrcymru.co.uk)

## Lwfans Myfyrwr Anabl

Gallwch ymgeisio am Lwfans i Fyfyrrwr Anabl (DSA) os oes gennych chi anabledd sy'n bodloni'r diffiniad o anabledd dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, yn cynnwys:

- cyflwr iechyd hirdymor
- cyflwr iechyd meddwl
- anhawster dysgu penodol, er enghraifft: dyslecsia

Telir DSA ar wahân i unrhyw gyllid i fyfyrwr arall. Maent yn eich helpu i dalu'r costau ychwanegol sydd gennych oherwydd eich anabledd. Does dim rhaid eu had-dalu. Mae'r hyn a gewch chi yn dibynnu ar eich anghenion unigol.

I ymgeisio neu i gael gwybod mwy am DSA ewch i [www.cyllidmyfyrwrcymru.co.uk](http://www.cyllidmyfyrwrcymru.co.uk)

## Help a gwybodaeth ychwanegol

I gael yr wybodaeth fwyaf cyfredol ynghylch y Benthyciad Gradd Doethuriaeth Ôl-raddedig, gallwch:

- fynd i [www.cyllidmyfyrwrcymru.co.uk](http://www.cyllidmyfyrwrcymru.co.uk)
- ein dilyn ar twitter ar [@SF\\_Wales](https://twitter.com/SF_Wales)
- ddod o hyd i ni ar Facebook/SFWales
- wyllo ein ffilmiau ar YouTube/SFWFILM

Os na allwch chi ddod o hyd i'r wybodaeth sydd angen ar-lein, gallwch ein ffonio ar **0300 100 0494**.

Mae'n ffurflenni a chanllawiau i gyd ar gael mewn Braille, print mawr neu sain. Os ydych chi angen y rhain, gallwch ofyn amdanynt trwy e-bostio eich enw, cyfeiriad a manylion y fformat rydych ei angen i [brailleandlargefonts@slc.co.uk](mailto:brailleandlargefonts@slc.co.uk) neu ffonio **0141 243 3686** (dim ond gyda cheisiadau am fformatau amgen y defnyddir y rhif hwn).

## Mae'n bwysig eich bod yn darllen y 7 pheth canlynol cyn ymgeisio am Fenthyciad Gradd Doethuriaeth Ôl-raddedig.

- 1** Gallwch wneud cais am fenthyciad o hyd at **£28,655**. Telir hyn yn uniongyrchol i'ch cyfrif banc mewn rhandaliadau.
- 2** Bydd cyfanswm eich benthyciad yn cael ei rannu'n gyfartal dros hyd eich cwrs. Byddwch yn cael 3 taliad ar gyfer pob blwyddyn academaidd.
- 3** Fe godir llog ar eich benthyciad o'r diwrnod pan gewch eich taliad cyntaf. Bydd hyn yn parhau nes eich bod wedi ad-dalu eich benthyciad yn llawn neu nes bydd eich benthyciad yn cael ei ganslo wedi **30 mlynedd** – pa un bynnag ddaw gyntaf.
- 4** Mae eich cyfradd llog wedi ei sefydlu yn defnyddio'r Mynegai Prisiau Manwerthu plws **3%** atodol.
- 5** Bydd yn rhaid i chi ad-dalu eich benthyciad, ond dim ond pan fydd eich incwm dros **£21,000** y flwyddyn.
- 6** Byddwch yn ad-dalu **6%** o'ch incwm dros **£21,000** tuag at eich benthyciad ôl-raddedig.
- 7** I gael gwybod mwy am ad-dalu benthyciadau ôl-raddedig ewch i **[www.cyllidmyfyrwycymru.co.uk](http://www.cyllidmyfyrwycymru.co.uk)**

### Eich gwybodaeth

Fe ddefnyddir yr wybodaeth a roddwch yn ystod y broses ymgeisio i asesu eich hawl i gyllid i fyfyrwr. Chi sy'n gyfrifol am sicrhau bod yr wybodaeth yn gywir. Mae'n drosedd i ddarparu gwybodaeth anghywir yn fwriadol ar y cais hwn.

### Rydych chi nawr yn barod i ymgeisio am Fenthyciad Doethuriaeth Ôl-raddedig

# Adran 1 Eich manylion

## 1.1 Manylion personol

Llenwch y manylion hyn yn union fel y nodwyd ar eich pasbort, tystysgrif geni neu gerdyn adnabod.



Os yw'ch enw wedi newid ers cyhoeddi eich pasbort, tystysgrif geni neu gerdyn adnabod, bydd angen i chi anfon dogfennau atom i ddangos hyn. Darllenwch y nodiadau i weld beth i'w anfon.

## 1.2 Cyfeirnod Cwsmer (os oes gennych un)

Mae'ch Cyfeirnod Cwsmer yn 11 digid o hyd.

Bydd gennych Gyfeirnod Cwsmer os ydych chi wedi ymgeisio am gyllid myfyrwyr, neu wedi cefnogi cais ar gyfer cyllid i fyfyrwyr rhywun arall gan unrhyw un o'r canlynol:

- Y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr
- Student Finance England
- Cyllid Myfyrwyr Cymru
- Student Finance NI

## 1.3 Man geni

Enw eich pentref, tref neu ddinas enedigol.

## 1.4 Eich cenedligrwydd

Os oes gennych chi statws 'Person Heb Wladwriaeth', nodwch Heb Wladwriaeth yn y blwch testun.

## 1.5 Rhif Yswiriant Gwladol y DU



Os ydych wedi gweithio'n flaenorol yn y Deyrnas Unedig, fe welwch eich Rhif Yswiriant Gwladol ar unrhyw un o'r canlynol:

- eich cerdyn neu lythyr rhif Yswiriant Gwladol; neu
- slip talu; neu
- ddogfen Treth Incwm fel P45 neu P60.

Rhaid i chi ddarparu eich rhif Yswiriant Gwladol.

Byddwn yn rhannu'r Rhif Yswiriant Gwladol a roddwch gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau i gadarnhau ei fod yn ddilys, a gyda Chyllid a Thollau EM i'n galluogi i gasglu eich ad-daliadau.

Teitl

Mr  Mrs  Miss  Ms  Mx  
 Doctor  Yr Athro

Enw(au) Blaen

Cyfenw

Rhyw

Gwryw  Benyw

Dyddiad geni

Dydd      Mis      Blwyddyn  
 /  /

## Adran 1 Eich manylion – parhad

### 1.6 Pa iaith hoffech chi i ni ddefnyddio pan ar lythyron a anfonwn atoch?

Os na fyddwch yn dewis opsiwn, byddwn yn nodi eich dewis fel Saesneg yn ddiodyn. Gallwch newid eich dewis ar unrhyw adeg trwy ein ffonio.

Saesneg  
 Cymraeg

### 1.7 Manylion cyswllt

Rhowch gyfeiriad e-bost gan y bydd hyn yn helpu ei gwneud yn haws i chi greu cyfrif ar-lein.

Rhowch wybod i ni cyn gynted â phosibl os bydd **unrhyw rai** o'ch manylion yn newid.

Rhif ffôn cartref

Rhif ffôn symudol

Cyfeiriad e-bost

### 1.8 Beth yw'ch cyfeiriad cyswllt?

Os byddwch yn nodi cyfeiriad cyswllt, i'r cyfeiriad hwnnw y byddwn yn anfon pob gohebiaeth.

Gallwch ddiweddarau'ch cyfeiriad(au) ar unrhyw adeg trwy fewngofnodi i'ch cyfrif ar-lein neu trwy'n ffonio.

Cyfeiriad cyswllt

Cod post

Gwlad

### 1.9 Rhowch wybodaeth eich cyfrif banc neu'ch cymdeithas adeiladu yn y Deyrnas Unedig

Rhaid i hyn fod yn gyfrif banc neu gymdeithas adeiladu yn y Deyrnas Unedig yn eich enw chi a rhaid ei fod yn gallu derbyn cardiau credyd.

Os nad oes gennych gyfrif banc neu gymdeithas adeiladu yn y Deyrnas Unedig, bydd rhaid i chi gael un cyn y gallwn eich talu. Rhowch wybod i ni beth yw manylion y cyfrif cyn gynted â phosibl.

Sylwer y bydd manylion banc neu gymdeithas adeiladu anghywir yn arwain at oedi gyda thaliadau eich benthyciad.

Cod didoli

 -  - 

Rhif y cyfrif

Rhif rhôl cymdeithas adeiladu (os yn berthnasol)

## Adran 2 Eich astudio blaenorol

Os ydych chi wedi derbyn cyllid benthyciad tuag at radd doethuriaeth ôl-raddedig yn flaenorol gan Student Finance England, Cyllid Myfyrwyr Cymru, Student Finance Northern Ireland neu'r Student Awards Agency Scotland, nid ydych yn gymwys i gael Benthyciad Doethuriaeth Ôl-raddedig ac ni ddylech gyflwyno cais. Mae'n bosibl y byddwch yn gallu cael cyllid os na wnaethoch lwyddo i gwblhau eich cwrs blaenorol oherwydd rheswm personol a chymhellol. Enghreifftiau o resymau personol cymhellol yw salwch neu brofedigaeth, ond gellir adolygu amgylchiadau fesul achos. Bydd angen i chi ddarparu tystiolaeth o hyn.


### 2.1 A oes gennych gymhwyster ôl-raddedig yn barod?


Nac oes – ewch i **Adran 3**

Oes – ewch i **2.2**

### 2.2 Ticiwch y blwch perthnasol i ddangos pa gymhwyster a dderbynioch



Doethuriaeth Uwch   
(e.e. DLitt, DSc, DTech, LLD, DD, DMus, DMedSc)

Gradd Doethuriaeth   
(e.e. PhD/DPhil, EdD, DBA, DClinPsy)

Gradd Meistr

Gradd Meistr Integredig

Dyfarniad Lefel 8, Tystysgrif Lefel 8 neu Ddiploma Lefel 8

Gradd Meistr er Anrhydedd  
(MA o un o Brifysgolion Rhydychen, Caergrawnt, Trinity College Dulyn neu Brifysgol yn yr Alban)

Tystysgrif Ôl-Raddedig

Tystysgrif Addysg i Raddedigion (TAR)

Diploma Ôl-Raddedig

Cymhwyster ôl-raddedig arall – Rhowch fanylion isod  
(yn cynnwys unrhyw gymhwyster ôl-raddedig a gyflawnwyd dramor)

Teitl y cwrs

Enw'r cymhwyster

Enw'r brifysgol neu sefydliad addysgol

Cyfeiriad

Cod post

Gwlad

## Adran 3 Eich cwrs gradd doethuriaeth ôl-raddedig

### 3.1 A fyddwch chi'n astudio cwrs Doethuriaeth Ôl-raddedig llawn?



Na fyddaf – ni ddylech chi barhau gyda'ch cais gan nad ydych yn gymwys i dderbyn cyllid Doethuriaeth Ôl-raddedig. Dylech gysylltu â'ch prifysgol neu goleg i drafod dewisiadau ariannu pellach a allai fod ar gael.

Byddaf

### 3.2 Rhowch fanylion am y cwrs gradd doethuriaeth ôl-raddedig yr ydych wedi ymgeisio amdano

Rhowch gymaint o fanylion â phosibl ar adeg eich cais.

Os bydd unrhyw rai o'r manylion hyn yn newid, mewngofnodwch i'ch cyfrif neu ffoniwch ni i ddiweddarau eich gwybodaeth.

Os nad ydych chi'n siŵr o enw'ch cwrs, gwiriwch gyda'ch prifysgol.

Enw'r brifysgol

Cyfeiriad y brifysgol

Enw'r campws/lleoliad

Enw'r cwrs

Cod cwrs

Dyddiad cychwyn blwyddyn gyntaf eich cwrs

Mis Blwyddyn  
 /

Hyd Cwrs

3 blynedd

4 mlynedd

5 mlynedd

6 mlynedd

7 mlynedd

8 mlynedd



Dylech ddewis y nifer o flynyddoedd yr ydych yn disgwyl fydd yn cymryd i chi gwblhau eich cwrs.

## Adran 3 Eich cwrs gradd doethuriaeth ôl-raddedig

3.3 A ydych chi'n gymwys i ymgeisio am fwsariaeth gwaith cymdeithasol?



- Nac ydw
- Ydw – a ydych chi wedi ymgeisio a chael eich gwrthod am hyn?
- Nac ydw – ni ddylech chi barhau gyda'ch cais. Mae angen i chi ymgeisio am fwsariaeth, darllenwch y nodiadau am ragor o wybodaeth.
- Ydw – dwi wedi ymgeisio a chael fy ngwrthod. Bydd angen i chi anfon eich llythyr gwrthodiad gyda'ch cais.

3.4 A fyddwch chi'n derbyn bwrsariaeth y GIG?



- Na fyddaf
- Byddaf – ni ddylech chi barhau gyda'ch cais. Darllenwch y nodiadau am ragor o wybodaeth.

3.5 A fyddwch chi'n disgwyl derbyn Cyllid Cyngor Ymchwil ar unrhyw adeg yn ystod eich cwrs cyfan?



- Na fyddaf
- Byddaf – ni ddylech chi barhau gyda'ch cais gan nad ydych yn gymwys i dderbyn cyllid Doethuriaeth Ôl-raddedig.

3.6 A yw hwn yn gwrs dysgu o bell?



- Nac ydi
- Ydi – a ydych chi'n astudio ar gwrs dysgu o bell oherwydd eich bod chi neu aelod o'ch teulu yn y lluoedd arfog?
- Nac ydw – ewch i **3.7**
- Ydw – bydd angen i chi anfon tystiolaeth atom. Darllenwch y nodiadau i weld beth i'w anfon – **ewch i adran 4**

3.7 A fyddwch chi'n astudio tu allan i'r Deyrnas Unedig am fwy na hanner eich cwrs cyfan?

- Na fyddaf – os bydd hyn yn newid mae angen i chi gysylltu â ni.
- Byddaf – ni ddylech chi barhau gyda'ch cais gan nad ydych yn gymwys i dderbyn cyllid Doethuriaeth Ôl-raddedig.



## Adran 4 Eich gwybodaeth preswyllo

### 4.1 A ydych yn wladolyn o'r DU?

Nac ydw – ewch i 4.3

Ydw – ewch i 4.2

### 4.2 A oes gennych basbort y Deyrnas Unedig cyfredol?



Byddwn yn rhannu'r manylion pasbort a roddwch gyda Swyddfa Basbort EM i gadarnhau eu bod yn ddilys.

Nac oes – mae angen i chi anfon dogfennau ategol i brofi eich hunaniaeth. Darllenwch y nodiadau i weld beth i'w anfon a chynnwys hyn gyda'ch ffurflen gais wedi ei chwblhau.

Oes – llenwch y canlynol yn union fel y maent ar eich pasbort.

Dyddiad cyhoeddi

Dydd      Mis      Blwyddyn  
 /  /

Dyddiad dod i ben

Dydd      Mis      Blwyddyn  
 /  /

Rhif pasbort

Enw(au) Blaen

Cyfenw

Nawr ewch i **adran 5, C5.1**

### 4.3 Ydych chi'n ddinesydd Gwyddelig?



Nac ydw – ewch i 4.4

Ydw – Ydych wedi bod yn byw am dair blynedd cyn dyddiad cyntaf BA gyntaf eich cwrs yn

- Y Deyrnas Unedig a'i Hynysydd ac/neu Iwerddon

neu

- y Deyrnas Unedig ac/neu Diriogaethau Tramor Prydeinig penodedig?

Ydw – nawr ewch i **adran 5 C5.1**

Nac ydw - oeddech chi'n preswyllo yn:

- y Deyrnas Unedig ar 31 Rhagfyr 2020 ac wedi bod yn preswyllo yn y Deyrnas Unedig, Tiriogaethau Tramor, yr AEE neu'r Swistir

neu

- yn yr AEE neu'r Swistir ar 31 Rhagfyr 2020 a'ch bod eich dau wedi bod yn byw yn y Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr AEE neu'r Swistir

am dair blynedd cyn dyddiad cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf eich cwrs?

Ydw – nawr ewch i **adran 5, C5.1**

Nac ydw – ewch i 4.4

## Adran 4 Eich gwybodaeth preswyllo – parhad

### 4.4 A ydych chi'n aelod o deulu gwladolyn DU?



- Nac ydw – ewch i **4.5**
- Ydw –a ydych wedi bod yn preswyllo yn y DU a'i hynsoedd am dair blynedd cyn dyddiad cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf eich cwrs **a** bydd aelod o'ch teulu yn preswyllo yn y DU ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf eich cwrs?
- Nac ydw – a oeddech chi a'ch aelod o'r teulu sy'n wladolyn y Deyrnas Unedig yn byw:
- yn y Deyrnas Unedig ar 31 Rhagfyr 2020, wedi symud i'r Deyrnas Unedig o'r AEE neu'r Swistir ar neu wedi 1 Ionawr 2018
- neu
- yn yr AEE neu'r Swistir ar 31 Rhagfyr 2020
- a'ch bod eich dau wedi bod yn byw yn y Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr AEE neu'r Swistir am dair blynedd cyn dyddiad cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf eich cwrs?
- Nac ydw – ewch i **4.5**
- Ydw – nawr ewch i **adran 5, C5.1**
- Ydw – nawr ewch i **adran 5, C5.1**

## Adran 4 Eich gwybodaeth preswyllo – parhad

### 4.5 A ydych chi'n aelod o deulu gwladolyn Gwyddelig?



Nac ydw – ewch i **4.6**

Ydw – a ydych wedi bod yn byw yn y Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr AEE neu'r Swistir am dair blynedd cyn dyddiad cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf eich cwrs?

Ydw – nawr ewch i **aran 5, C5.1**

Nac ydw – a oes gennych chi sefydlog neu statws preswyllydd cyn-sefydlog dan y Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE **ac** rydych wedi bod yn breswylwr yn y DU, yr AEE, y Swistir neu'r Tiriogaethau Tramor am y tair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf eich cwrs?

Nac ydw – ewch i **4.6**

Ydw – rhowch eich:  
Cod rhannu

Dyddiad terfyn statws preswyllydd cyn-sefydlog (os yn berthnasol)

Diwrnod    Mis    Blwyddyn

/  /

Nawr ewch i **adran 5, C5.1**

## Adran 4 Eich gwybodaeth preswyllo – parhad

### 4.6 A ydych chi'n aelod o deulu rhywun o Ogledd Iwerddon?



- Nac ydw - ewch i **4.7**
- Ydw – a ydych wedi bod yn byw yn y Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr AEE neu'r Swistir am dair blynedd cyn dyddiad cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf eich cwrs?
- Ydw – nawr ewch i **aran 5, C5.1**
- Nac ydw – a oes gennych chi sefydlog neu statws preswyllydd cyn-sefydlog dan y Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE **ac** rydych wedi bod yn breswylwr yn y DU, yr AEE, y Swistir neu'r Tiriogaethau Tramor am y tair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf eich cwrs?

Nac ydw – ewch i **4.7**

Ydw – rhowch eich:  
Cod rhannu

Dyddiad terfyn statws preswyllydd cyn-sefydlog (os yn berthnasol)

Diwrnod    Mis    Blwyddyn  
 /  /

Nawr ewch i **adran 5, C5.1**

### 4.7 A oes gennych chi statws preswyllydd sefydlog neu statws preswyllydd cyn-sefydlog dan y Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE?



- Nac ydw – ewch i **4.8**
- Ydw – statws sefydlog, ewch i **4.7.1**
- Ydw – statws preswyllydd cyn-sefydlog, ewch i **4.7.2**

## Adran 4 Eich gwybodaeth preswyllo – parhad

### 4.7.1 Statws wedi setlo



Ydych chi wedi bod yn byw yn

- y Deyrnas Unedig a'i Hynysydd ac/neu lwerddon

neu

- y DU, Ynysoedd ac/neu Dirioogaethau Tramor Prydeinig penodedig am y tair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf eich cwrs?

Ydw – rhowch eich cod rhannu

Nawr ewch i **adran 5, C5.1**

Nac ydw - a ydych yn wladolyn yr UE neu'n aelod o'r teulu i wladolyn yr UE ac wedi bod yn byw yn y Deyrnas Unedig, yr AEE, Swistir neu'r Tiriogaethau Tramor am y tair blynedd cyn dyddiad cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf eich cwrs?

Nac ydw – ewch i **4.8**

Ydw –

Rwy'n wladolyn yr UE

Rwy'n aelod o deulu gwladolyn yr UE

Rhowch eich cod rhannu:

Nawr ewch i **adran 5, C5.1**

### 4.7.2 Statws preswlydd cyn-sefydlog



Ydych chi yn

- wladolyn yr UE ac ydych chi wedi bod yn byw yn y DU a'i Hynysydd, yr AEE, Swistir neu'r Tiriogaethau Tramor

neu

- yn aelod o'r teulu i wladolyn yr UE ac wedi bod yn byw yn y Deyrnas Unedig, yr AEE, Swistir neu'r Tiriogaethau Tramor am y tair blynedd cyn dyddiad cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf eich cwrs?

Nac ydw – ewch i **4.8**

Ydw –

Rwy'n wladolyn yr UE

Rwy'n aelod o deulu gwladolyn yr UE

Dyddiad terfyn statws preswlydd cyn-sefydlog (os yn berthnasol)

Diwrnod      Mis      Blwyddyn  
 /  /

Rhowch eich cod rhannu:

Nawr ewch i **adran 5, C5.1**

## Adran 4 Eich gwybodaeth preswyllo – parhad

### 4.8 A ydych chi yn:



- Wladolyn yr UE
- aelod o deulu gwladolyn yr UE preswyllo yn Gibraltar?

Nac ydw – ewch i **4.9**

Ydw – a ydych wedi bod yn breswylwr yn y DU, yr AEE, y Swistir neu'r Tiriogaethau Tramor am y tair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf eich cwrs?

Nac ydw – ewch i **4.9**

Ydw – nawr ewch i **adran 5, C5.1**

### 4.9 A ydych chi yn aelod o'r teulu i wladolyn y DU preswyllo yn Gibraltar?



Nac ydw – ewch i **4.10**

Ydw - wedi bod yn preswyllo yn y Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr AEE neu'r Swistir am dair blynedd cyn dyddiad cyntaf y flwyddyn academiaidd gyntaf?

Nac ydw – ewch i **4.10**

Ydw – nawr ewch i **adran 5, C5.1**

## Adran 4 Eich gwybodaeth preswyllo – parhad

### 4.10 A ydych yn blentyn i wladolyn y Swistir?



- Nac ydw – ewch i **4.11**
- Ydw – a ydych wedi bod yn byw yn y Deyrnas Unedig, yr AEE neu'r Swistir am dair blynedd cyn dyddiad cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf eich cwrs?

- Nac ydw – a ydych wedi bod yn breswylwr yn y DU, yr AEE, y Swistir neu'r Tiriogaethau Tramor (ac eithrio Gibraltar) am y tair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf eich cwrs?

Nac ydw – ewch i **4.11**

Ydw – rhowch **eich:**

Cod rhannu

- Ydw – rhowch **eich:**

Dyddiad terfyn y statws preswyllydd cyn-sefydlog (os yn berthnasol)

Diwrnod Mis Blwyddyn  
 /  /

Cod rhannu

Os ydych chi'n wladolyn Gwyddelig, nid oes angen i chi ddarparu cod rhannu

Rhowch y canlynol ar gyfer eich **rhiant/llys-riant:**

Dyddiad geni

Diwrnod Mis Blwyddyn  
 /  /

Dyddiad terfyn statws preswyllydd cyn-sefydlog (os yn berthnasol)

Diwrnod Mis Blwyddyn  
 /  /

Cod rhannu

Nawr ewch i **adran 5, C5.1**

## Adran 4 Eich gwybodaeth preswyllo – parhad

### 4.11 A ydych yn wladolyn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) neu wladolyn Swisaidd sydd:



- yn gweithio yn y Deyrnas Unedig
- wedi gweithio yn gweithio yn y Deyrnas Unedig ac yn chwilio am waith yn y Deyrnas Unedig?

Nid oes angen i chi ddarparu cod rhannu os ydych chi'n weithiwr ffin neu'n wladolyn Gwyddelig.

Nac ydw – ewch i **4.12**

Ydw – a ydych wedi bod yn breswylwr yn y DU, yr AEE, y Swistir neu'r Tiriogaethau Tramor am y tair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf eich cwrs?

Nac ydw – ewch i **4.12**

Ydw – rhowch **eich**:  
Cod rhannu

Dyddiad pan fydd y statws hwn ddod i ben (os yn berthnasol)

Diwrnod Mis Blwyddyn

 /  / 

Mae angen i chi lawrlwytho a llenwi'r **ffurflen Statws Cyflogaeth y Deyrnas Unedig** a'i dychwelyd gyda'ch cais am Gyllid Gradd Doethuriaeth Ôl-raddedig.

Mae'r ffurflen Statws Cyflogaeth yn y Deyrnas Unedig ar gael o

[www.cyllidmyfyrwycymru.co.uk/cyllid-ol-raddedig](http://www.cyllidmyfyrwycymru.co.uk/cyllid-ol-raddedig)

Nawr ewch i **adran 5, C5.1**

### 4.12 A ydych chi neu'ch:



- gŵr, gwraig, partner sifil; neu
- rhiant (neu rieni), llys riant; neu
- plentyn, llys blentyn
- aelod o'r teulu mewn llinell esgynnol

neu ddisgynnol uniongyrchol arall yn wladolyn yr AEE neu'r Swistir sy'n gweithio, neu wedi gweithio neu'n chwilio am waith yn y DU?

Nac ydw – ewch i **4.13**

ydw – rydw i wedi bod yn gweithio neu'n chwilio am waith yn y DU.

Ydi – mae fy aelod o'r teulu wedi bod yn gweithio neu'n chwilio am waith yn y DU. Perthynas fy aelod o'r teulu i mi yw:

gŵr/gwraig/partner sifil

rhiant (neu rieni)/llys riant

plentyn/llys blentyn - ddim ond yn berthnasoli aelodau'r teulu sy'n weithwyr AEE.

aelod o'r teulu arall mewn llinell esgynnol neu ddisgynnol uniongyrchol - ddim ond yn berthnasol i aelodau'r teulu sy'n weithwyr AEE.



## Adran 4 Eich gwybodaeth preswyllo – parhad



A ydych wedi bod yn breswylwr yn y DU, yr AEE, y Swistir neu'r Tiriogaethau Tramor am y tair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf eich cwrs?

Ydw – rhowch fanylion cyflogaeth eich aelod o'r teulu. Dylech hefyd ddarparu manylion eich astudio blaenorol.

Nac ydw – ewch i **4.13**



Os yw'ch aelod o'r teulu yn gweithio ar hyn o bryd, a fydd yn dal i weithio yn ystod eich cyfnod astudio?

Nac ydw – ewch i **4.13**

Ydw – rhowch fanylion:

Rhowch eich: Cod rhannu

Dyddiad terfyn y statws preswlydd cyn-sefydlog

Diwrnod Mis Blwyddyn  
 /  /

Rhowch ar gyfer yr aelod o'r teulu:

Dyddiad geni

Diwrnod Mis Blwyddyn  
 /  /

Cod rhannu

Dyddiad terfyn y statws preswlydd cyn-sefydlog

Diwrnod Mis Blwyddyn  
 /  /

Nawr ewch i **adran 5, C5.1**

**4.13** A ydych chi'n blentyn i Weithiwr o Dwrci sy'n gweithio yn y DU?



Nac ydw – ewch i **4.14**

Ydw – a yw eich rhiant/llys riant sy'n weithiwr o Dwrci wedi derbyn Caniatâd i Aros estynedig yn y DU wedi 31 Rhagfyr 2020 gan y Swyddfa Gartref?

Nac ydi – ewch i **4.14**

Ydi – a oeddech chi a'ch rhiant/llys riant sy'n weithiwr o Dwrci yn byw yn y DU erbyn 31 Rhagfyr 2020?

Nac oeddwn – ewch i **4.14**

Ydw – nawr ewch i **adran 5, C5.1**

## Adran 4 Eich gwybodaeth preswyllo – parhad

**4.14** Ydych chi neu eich aelod o'r teulu wedi derbyn caniatâd dan y Polisi Adleoli a Chymorth i Affganiaid (ARAP) neu'r Cynllun Adsefydlu Dinasyddion Affganistan (ACRS)?



- Nac ydw – ewch i **4.15**
- Ydw
- Rydw i wedi cael caniatâd dan yr ARAP neu ACRS - ewch i **4.14.1**
- Rydw i wedi cael caniatâd yn unol â'm haelod o'r teulu - ewch i **4.14.2**

**4.14.1** Rydw i wedi cael caniatâd dan yr ARAP neu ACRS



Rhowch eich:

Cyfeirnod y Swyddfa Gartref

Dyddiad y sicrhawyd y statws diweddaraf

Diwrnod Mis Blwyddyn

 /  / 

Dyddiad pan fydd y statws hwn ddod i ben (os yn berthnasol)

Diwrnod Mis Blwyddyn

 /  / 

Nawr ewch i **4.14.3**

**4.14.2** Rydw i wedi cael caniatâd yn unol â'm haelod o'r teulu



Rhowch eich:

Cyfeirnod y Swyddfa Gartref

Dyddiad y sicrhawyd y statws diweddaraf

Diwrnod Mis Blwyddyn

 /  / 

Dyddiad pan fydd y statws hwn ddod i ben (os yn berthnasol)

Diwrnod Mis Blwyddyn

 /  / 

Nawr ewch i **4.14.3**

**4.14.3** Ydych chi wedi byw y tu allan i'r Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd ers i chi neu eu statws ddiwethaf?



- Nac ydw – ewch i **adran 6**
- Ydw – ewch i **adran 5, C5.2**

## Adran 4 Eich gwybodaeth preswyllo – parhad

**4.15** A ydych wedi sicrhau ‘statws preswlydd sefydlog’ yn y DU dan y Cynllun Preswyllo’n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE?



Nac ydw – ewch i **4.16**

Ydw – rhowch eich:

Cyfeirnod y Swyddfa Gartref

Dyddiad y sicrhawyd y statws diweddaraf

Diwrnod Mis Blwyddyn

/ / 

Nawr ewch i **adran 5, C5.1**

**4.16** A ydych chi’n aelod o deulu rhywun sydd â ‘statws sefydlog’ yn y DU?



Gweler y nodiadau am eglurhad ar categorïau aelodau o deulu.

Nac ydw – ewch i **4.17**

Ydw – a ydych wedi bod yn preswyllo yn y DU a’i hynsoedd am dair blynedd cyn dyddiad cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf eich cwrs

**a**

bydd eich aelod o’r teulu yn preswyllo yn y DU ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs?

Nac ydw – ewch i **4.17**

Ydw – rhowch eich:

Cod rhannu (os oes gennych un):

os nad oes gennych god cyfrannau rhowch eich:

Cyfeirnod y Swyddfa Gartref

Dyddiad y sicrhawyd y statws diweddaraf

Diwrnod Mis Blwyddyn

/ / 

Os oes gan eich aelod o’r teulu statws preswlydd sefydlog neu cyn-sefydlog dan y Cynllun Preswyllo’n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE, rhowch ei:

Cod rhannu

Nawr ewch i **adran 5, C5.1**

## Adran 4 Eich gwybodaeth preswyllo – parhad

### 4.17 A ydych chi neu'ch:



- gwr, gwraig, partner sifil; neu
- riant (neu rieni), llys-riant wedi cael caniatâd

o dan Gynllun Wcráin?

Wrth sôn am Gynllun Wcráin, rydym yn cyfeirio at:

- y Cynllun Teuluoedd o Wcráin;
- y Cynllun Noddi Cartrefi i Wcráin;
- y Cynllun Estyn Cyfnod Gwladolion o Wcráin

Nac ydw – ewch i **4.18**

Ydw – Rwyf wedi cael caniatâd o dan Gynllun Wcráin ewch i **4.17.1**

Ydw - mae aelod o'm teulu wedi cael caniatâd o dan Gynllun Wcráin ewch i **4.17.2**

### 4.17.1 Rwyf wedi cael caniatâd o dan Gynllun Wcráin



Rhowch eich:

Cod rhannu (os oes un gennyh)

os nad oes gennyh god cyfrannau rhowch eich:

Cyfeirnod y Swyddfa Gartref

Dyddiad y sicrhawyd y statws diweddaraf

Diwrnod Mis Blwyddyn

/ / 

Dyddiad pan fydd y statws hwn ddod i ben

Diwrnod Mis Blwyddyn

/ / 

Nawr ewch i **4.17.3**

## Adran 4 Eich gwybodaeth preswyllo – parhad

### 4.17.2 Mae aelod o'm teulu wedi cael caniatâd o dan Gynllun Wcráin



Rhowch eich:

Rhowch ar gyfer yr aelod o'r teulu:

Cod rhannu (os oes ganddynt un)

Dyddiad geni

Diwrnod Mis Blwyddyn

/ / 

Os nad oes ganddynt god rhannu, rhowch eu:

Cyfeirnod y Swyddfa Gartref

Dyddiad y sicrhawyd y statws diweddaraf

Diwrnod Mis Blwyddyn

/ / 

Dyddiad pan fydd y statws hwn ddod i ben

Diwrnod Mis Blwyddyn

/ / 

Nawr ewch i **4.17.3**

### 4.17.3 A ydych chi wedi byw tu allan i'r DU a'r Ynysoedd ers i chi sicrhau eich statws diwethaf?



Nac ydw – ewch i **adran 6**

Ydw – ewch i **adran 5, C5.2**

### 4.18 A ydych chi neu'ch:



- gŵr, gwraig, partner sifil
- eich rhiant (neu rieni), llys-riant wedi sicrhau statws ffoadur gan lywodraeth y Deyrnas Unedig?

Nac ydw – ewch i **4.19**

Ydw – rhowch eich:

Cyfeirnod y Swyddfa Gartref

Dyddiad y sicrhawyd y statws diweddaraf

Diwrnod Mis Blwyddyn

/ / 

Dyddiad pan fydd y statws hwn ddod i ben

Diwrnod Mis Blwyddyn

/ /

## Adran 4 Eich gwybodaeth preswyllo – parhad

### 4.19 A ydych chi neu'ch:



- gŵr, gwraig, partner sifil; neu
- riant (neu rieni), llys-riant wedi sicrhau Amddiffyniad Dyngarol?

Nac ydw – ewch i 4.20

Ydw – rhowch eich:

Cyfeirnod y Swyddfa Gartref

Dyddiad y sicrhawyd y statws diweddaraf

Diwrnod Mis Blwyddyn  
□□ / □□ / □□□□

Dyddiad pan fydd y statws hwn ddod i ben

Diwrnod Mis Blwyddyn  
□□ / □□ / □□□□

Nawr ewch i **adran 5, C5.2**

### 4.20 A ydych chi neu'ch:



- gŵr, gwraig, partner sifil; neu
- riant (neu rieni), llys-riant wedi derbyn 'Caniatâd i Aros' fel Person heb Ddinasyddiaeth?

Nac ydw – ewch i 4.21

Ydw – rhowch eich:

Cyfeirnod y Swyddfa Gartref

Dyddiad y sicrhawyd y statws diweddaraf

Diwrnod Mis Blwyddyn  
□□ / □□ / □□□□

Dyddiad pan fydd y statws hwn ddod i ben

Diwrnod Mis Blwyddyn  
□□ / □□ / □□□□

Nawr ewch i **adran 5, C5.2**

### 4.21 A ydych chi neu'ch:



- gŵr, gwraig, partner sifil; neu
- rhiant (neu rieni) neu lys-riant wedi cael:
- 'caniatâd mynediad neu aros' yn y Deyrnas Unedig ar sail bywyd teuluol neu breifat; neu
- 'caniatâd mynediad neu aros' yn y Deyrnas Unedig yn dilyn cais aflwyddiannus am 'ganiatâd mynediad neu aros' ar sail bywyd teuluol neu bersonol ar sail Erthygl 8 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (ECHR); neu
- Caniatâd yn ôl Disgresiwn o ganlyniad i gais lloches aflwyddiannus; neu
- Caniatâd yn ôl Disgresiwn ble na wnaethpwyd cais am loches?

Nac ydw – ewch i 4.22

Ydw – rhowch eich:

Cyfeirnod y Swyddfa Gartref

Dyddiad y sicrhawyd y statws diweddaraf

Diwrnod Mis Blwyddyn  
□□ / □□ / □□□□

Dyddiad pan fydd y statws hwn ddod i ben

Diwrnod Mis Blwyddyn  
□□ / □□ / □□□□

Nawr ewch i **adran 5, C5.2**

## Adran 4 Eich gwybodaeth preswyllo – parhad

**4.22** A ydych wedi cael ‘Caniatâd i Aros’ yn y Deyrnas Unedig fel dioddefwr trais domestig neu gam-drin neu a ydych yn blentyn dibynnol i rywun sydd?



Nac ydw – ewch i **4.23**

Ydw – rhowch eich:

Cyfeirnod y Swyddfa Gartref

Dyddiad y sicrhawyd y statws diweddaraf

Diwrnod Mis Blwyddyn

 /  / 

Dyddiad pan fydd y statws hwn ddod i ben

Diwrnod Mis Blwyddyn

 /  / 

Nawr ewch i **adran 5, C5.2**

**4.23** A ydych wedi cael ‘Caniatâd i Aros’ yn y Deyrnas Unedig dan adran 67 Deddf Mewnfudo 2016, neu a ydych yn blentyn dibynnol sydd wedi cael caniatâd yn unol â rhywun sydd?



Nac ydw – ewch i **4.24**

Ydw – rhowch eich:

Cyfeirnod y Swyddfa Gartref

Dyddiad y sicrhawyd y statws diweddaraf

Diwrnod Mis Blwyddyn

 /  / 

Dyddiad pan fydd y statws hwn ddod i ben

Diwrnod Mis Blwyddyn

 /  / 

Nawr ewch i **adran 5, C5.2**

## Adran 4 Eich gwybodaeth preswyllo – parhad

**4.24** A ydych wedi cael ‘Caniatâd Calais’ yn y Deyrnas Unedig, neu a ydych yn blentyn dibynnol sydd wedi cael caniatâd yn unol â rhywun sydd?



Nac ydw – ewch i **4.25**

Ydw – rhowch eich:

Cyfeirnod y Swyddfa Gartref

Dyddiad y sicrhawyd y statws diweddaraf

Diwrnod Mis Blwyddyn  
 /  /

Dyddiad pan fydd y statws hwn ddod i ben

Diwrnod Mis Blwyddyn  
 /  /

Nawr ewch i **adran 5, C5.2**

**4.25** A ydych wedi cael ‘Caniatâd i Aros’ fel partner mewn profedigaeth neu a ydych yn blentyn dibynnol i rywun sydd?



Nac ydw – os rhoddoch ateb negyddol i'r holl gwestiynau yn yr adran hon, nid ydych yn gymwys i dderbyn Benthyciad Gradd Meistr Ôl-raddedig gan Gyllid Myfyrwyr Cymru.

Ydw – rhowch eich:

Cyfeirnod y Swyddfa Gartref

Dyddiad y sicrhawyd y statws diweddaraf

Diwrnod Mis Blwyddyn  
 /  /

Dyddiad pan fydd y statws hwn ddod i ben

Diwrnod Mis Blwyddyn  
 /  /

Nawr ewch i **adran 5, C5.2**



## Adran 5 Eich hanes cyfeiriadau

Rydym angen gwybod ymhle buoch yn byw am **3 blynedd** cyn diwrnod cyntaf eich blwyddyn academiaidd gyntaf ar eich cwrs. Os byddwch yn gadael unrhyw fylchau yn eich hanes cyfeiriad, bydd hyn yn achosi oedi gyda'ch cais.

Diwrnod cyntaf eich blwyddyn academiaidd yw:

- 1 Medi, os yw'ch cwrs yn cychwyn ar neu wedi 1 Awst a chyn 1 Ionawr;
- 1 Ionawr, os yw'ch cwrs yn cychwyn ar neu wedi 1 Ionawr a chyn 1 Ebrill;
- 1 Ebrill, os yw'ch cwrs yn cychwyn ar neu wedi 1 Ebrill a chyn 1 Gorffennaf;
- 1 Gorffennaf, os yw'ch cwrs yn cychwyn ar neu wedi 1 Gorffennaf a chyn 1 Awst.

Er enghraifft, os yw'ch cwrs yn cychwyn ar 5 Medi eleni, yna diwrnod cyntaf eich blwyddyn academiaidd yw 1 Medi. Rydym angen gwybod eich hanes cyfeiriad cyflawn ar gyfer 3 blynedd cyn 1 Medi.

### 5.1 Rhowch fanylion eich preswylad ar gyfer tair blynedd cyn cychwyn diwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf eich cwrs.



Nid oes angen i chi anfon prawf o'ch cyfeiriadau blaenorol ar hyn o bryd, ond efallai y byddwn yn gofyn amdano yn y dyfodol.

Os ydych chi angen mwy o le, dylech atodi darn ychwanegol o bapur A4 i'ch ffurflen wedi ei llenwi.

**Cofiwch gynnwys eich Cyfeirnod Cwsmer.**

Cyfeiriad cartref

Cod Post

O

Diwrnod	Mis	Blwyddyn	I	Diwrnod	Mis	Blwyddyn
<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>

Ticiwch y blwch hwn os byddwch yn byw yma pan fydd eich cwrs yn

Dywedwch pam y symudoch yma

Cyfeiriad cartref

Cod Post

O

Diwrnod	Mis	Blwyddyn	I	Diwrnod	Mis	Blwyddyn
<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>

Ticiwch y blwch hwn os byddwch yn byw yma pan fydd eich cwrs yn

Dywedwch pam y symudoch yma

## Adran 5 Eich hanes cyfeiriadau – parhad

### 5.2 Rhowch fanylion eich preswyliaid o'r dyddiad pan dderbynioch eich statws diweddaraf gan y Swyddfa Gartref i ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf eich cwrs. Ni ddylai fod yna unrhyw fylchau yn y dyddiadau a roddwch i ni.



Dylech ddarparu eich hanes cyfeiriad o'r dyddiad pan roddwyd neu adnewyddwyd eich statws y Swyddfa Gartref diweddaraf yn unig, hyd at uchafswm o 3 blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf eich cwrs.

Cyfeiriad cartref

Cod Post

O Diwrnod Mis Blwyddyn  I Diwrnod Mis Blwyddyn  
 /  /   /  /

Ticiwch y blwch hwn os byddwch yn byw yma pan fydd eich cwrs yn

Dywedwch pam y symudoch yma

Cyfeiriad cartref

Cod Post

O Diwrnod Mis Blwyddyn  I Diwrnod Mis Blwyddyn  
 /  /   /  /

Ticiwch y blwch hwn os byddwch yn byw yma pan fydd eich cwrs yn

Dywedwch pam y symudoch yma

## Adran 6 Faint hoffech chi ei fenthyg?

### Gwybodaeth am eich benthyciad

- Os yr ydych yn dechrau ar gwrs Doethurol ôl-raddedig llawn-amser neu ran-amser (fel PhD) o 1 Awst 2024 medrwch geisio am Fenthyciad Doethurol Ôl-raddedig fyny hyd at £28,655.
- Telir eich benthyciad mewn tri rhandaliad ym mhob blwyddyn academiaidd.
- Bydd cyfanswm y swm a fenthyciwch yn cael ei rannu'n gyfartal dros hyd eich cwrs, hyd yn oed os gofynnoch am yr uchafswm.

**Er enghraifft:** Os byddwch chi'n benthycy £28,655 ac mae'ch cwrs yn 4 mlynedd o hyd, byddwch yn derbyn cyfanswm o:

Blwyddyn 1: £7,163

Blwyddyn 2: £7,163

Blwyddyn 3: £7,163

Blwyddyn 4: £7,165

Gallwch ymgeisio am swm Benthyciad Doethuriaeth Ôl-raddedig yn ystod unrhyw flwyddyn o'ch cwrs, ond os byddwch chi'n ymgeisio wedi'r flwyddyn gyntaf, efallai na fyddwch yn cael yr uchafswm.

## Faint hoffech chi ei fenthyg i gyd?

Yr uchafswm o £28,655  
Ewch i adran 7

Swm gwahanol o £   ,     
Ewch i adran 7

## Adran 7 Eich cysylltiadau atodol

We wyddom weithiau y bydd pobl yn anghofio rhoi gwybod i ni os byddant yn symud tŷ neu'n newid rhifau ffôn. Er mwyn i ni allu cadw mewn cysylltiad â chi, rhowch fanylion dau gyswllt atodol i ni.

Dim ond i gael yn ôl mewn cysylltiad â chi fyddwn ni'n defnyddio eu manylion, dim rheswm arall. Trwy nodi'r manylion hyn, rydych yn cadarnhau eich bod wedi rhoi gwybod iddynt am hyn a'u bod yn hapus i'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr gysylltu â nhw os oes angen.

Ble fo'n bosibl, rhowch fanylion pobl sydd wedi eu lleoli yn y Deyrnas Unedig.

### 7.1 Rhowch wybodaeth eich cyswllt atodol cyntaf

Gall y person hwn fod yn byw yn yr un cyfeiriad â chi.

#### Cyswllt 1

Enw Cyntaf

Cyfenw

Perthynas â chi

Cyfeiriad

Cod Post

Rhif ffôn yn cynnwys cod deialu rhyngwladol os yw'n byw tu allan i'r Deyrnas Unedig

### 7.2 Rhowch wybodaeth eich ail gyswllt atodol

Ni all y person hwn fod yn byw yn yr un cyfeiriad â chi na'ch cyswllt cyntaf.

#### Cyswllt 2

Enw Cyntaf

Cyfenw

Perthynas â chi

Cyfeiriad

Cod Post

Rhif ffôn yn cynnwys cod deialu rhyngwladol os yw'n byw tu allan i'r Deyrnas Unedig

## Adran 8 Telerau ac amodau



Rhaid i chi lofnodi, dyddio a dychwelyd y ffurflen hon cyn y gellir gwneud unrhyw daliad i chi.

Mae'r telerau ac amodau ("telerau") hyn a deddfwriaeth berthnasol yn weithredol o ran yr holl gyllid i fyfyrwyr sydd ar gael i fyfyrwyr ar gyfer y flwyddyn academaidd 2023/24.

Rwy'n deall y gallai fy nghais am gyllid i fyfyrwyr gael ei ohirio oni bai fy mod yn llofnodi a dyddio'r telerau hyn.

### Contract y Benthyciad

1. Rwy'n cadarnhau fy mod wedi darllen a deall y telerau hyn a bod Canllaw i Amodau a Thelerau ar gael ar [www.cyllidmyfyrwyr.cymru.co.uk/telerau-ac-amodau](http://www.cyllidmyfyrwyr.cymru.co.uk/telerau-ac-amodau)
2. Rwy'n cadarnhau fod yr wybodaeth rwyf wedi ei darparu, hyd eithaf fy ngwybodaeth a chred, yn wir a chyflawn. Os nad yw, rwy'n deall ei bod yn bosibl na fyddaf yn derbyn cyllid i fyfyrwyr, y bydd unrhyw gefnogaeth yr wyf wedi ei chael yn cael ei thynnu yn ôl ac y gellir fy erlyn.
3. 3Rwy'n deall fod cyllid i fyfyrwyr yn cael ei ddarparu i mi gan Weinidogion Cymru (y "Rhoddwr Benthyciadau") sy'n cynnwys unrhyw bersonau yn gweithredu ar eu rhan ac unrhyw amnewidiad(au) dan adran 23(4) Deddf Addysg Uwch 1998 fel y'i diwygiwyd neu amnewidiwyd o bryd i'w gilydd (y "Ddeddf").
4. Rwy'n deall y bydd y telerau hyn, y Ddeddf a'r rheoliadau a wneir dan adran 22 y Ddeddf yn berthnasol i unrhyw gyllid i fyfyrwyr a roddir mi gan y Rhoddwr Benthyciadau.
5. Rwy'n deall bod "cyllid i fyfyrwyr" yn y telerau hyn yn golygu cefnogaeth ariannol trwy grant(iau) ac/neu fenthyciad(au) a wneir gan y Rhoddwr Benthyciadau dan y rheoliadau.
6. Rwy'n deall bod y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr ("SLC") yn cyflawni swyddogaethau penodol ar ran y Rhoddwr Benthyciadau.

### Fy Ymrwymiadau

7. Rwy'n deall os ydw i:
  - (i) wedi cyrraedd 18 oed; ac
  - (ii) fy mod wedi mynd i gytundeb(au) am fenthyciad dan adran 22 y Ddeddf cyn i mi gyrraedd 18 oed,fy mod yn cytuno i "ddilysu" unrhyw a phob benthyciad myfyriwr trwy lofnodi'r telerau hyn. Mae hyn yn golygu fy mod yn cadarnhau fy mod wedi mynd i gytundeb(au) gyda'r Rhoddwr Benthyciadau ac yn cytuno i delerau unrhyw gytundeb(au) blaenorol o'r fath. Os ydw i wedi cyrraedd 18 oed ac yn gwrthod "dilysu" unrhyw gytundeb(au) blaenorol, rwy'n deall na fyddaf yn gymwys i gael unrhyw gyllid i fyfyrwyr pellach dan y rheoliadau.

8. Rwy'n cytuno i roi unrhyw wybodaeth i SLC y bydd angen i gefnogi'r cais yma am gyllid i fyfyrwyr ac/neu i gasglu ad-daliad.
9. Rwy'n cytuno i roi gwybod i SLC ar unwaith s bydd fy amgylchiadau'n newid mewn unrhyw fodd a allai effeithio ar fy hawl i gyllid i fyfyrwyr. Os na fyddaf yn gwneud hyn deallaf na fyddaf efallai yn cael taliadau pellach a bod posibilrwydd y bydd yn rhaid i mi ad-dalu'r cyllid i fyfyrwyr yr ydw i eisoes wedi'i gael. Rwy'n cytuno o'r dyddiad y byddaf yn cyflwyno fy nghais am gyllid i fyfyrwyr nes bydd fy menthyciad(au), ynghyd â'r holl ac unrhyw log, cosbau a thaliadau sy'n berthnasol, yn cael ei ad-dalu yn llawn, bod yn rhaid i mi hysbysu SLC am unrhyw newidiadau yn fy manylion personol (gan gynnwys fy rhif Yswiriant Gwladol) a'r manylion cyswllt a roddais.
10. Rwy'n cytuno os byddaf yn cael gordaliad o gyllid i fyfyrwyr, mae angen i mi ei ad-dalu'n llawn ac y gellir casglu unrhyw ordaliad o unrhyw gais pellach am gyllid i fyfyrwyr.
11. Rwy'n cytuno y byddaf yn ad-dalu'r Rhoddwr Benthyciadau unrhyw fenthyciad(au), ynghyd â phob ac unrhyw log, gosbau a thaliadau sy'n berthnasol. Rwy'n deall y bydd yr ad-daliad hwn yn ddyledus gennyf fi i'r Rhoddwr Benthyciadau fel dyled. Os byddaf yn torri unrhyw un o delerau fy menthyciad, rwy'n cytuno i dalu unrhyw gostau a chosbau perthnasol dan y Ddeddf a'r rheoliadau. Rwy'n deall y byddaf yn ad-dalu fy menthyciad(au) trwy system dreth y Deyrnas Unedig ("DU") ac/neu y gallaf ad-dalu SLC yn uniongyrchol. Os ydw i'n byw dramor, byddaf yn ad-dalu fy menthyciad(au) i SLC yn uniongyrchol.
12. Rwy'n cytuno fod unrhyw fenthyciad(au) a wneir i mi yn unol â'r rheoliadau unwaith y derbynnir fy nghais gan y Rhoddwr Benthyciadau yn gytundeb(au) rhyngof fi a'r Rhoddwr Benthyciadau. Rwy'n deall fy mod yn atebol ar gyfer fy menthyciad(au) ac y codir llog arnaf o daliad cyntaf y benthyciad gan y Rhoddwr Benthyciadau.
13. Rwy'n cytuno i roi gwybod i SLC os byddaf yn gadael y DU i fyw tu allan i'r DU neu os am ba bynnag reswm arall y byddaf tu allan i system dreth y DU am fwy na thri mis.

### Camau Cyfreithiol a Deddfau Perthnasol

14. Os bydd galw am unrhyw achos cyfreithiol, rwy'n cytuno mai deddfau Cymru a Lloegr fydd yn weithredol ac y bydd y llysoedd yn y rhan honno o'r DU yn clywed unrhyw achos cyfreithiol. Os yw fy nghyfeiriad tu allan i'r DU, bydd deddfau'r rhan o'r DU ble mae fy narparwr addysg wedi ei leoli yn berthnasol a bydd y llysoedd yn y rhan

## Adran 8 Telerau ac amodau - parhad

honno o'r DU yn clywed unrhyw achos cyfreithiol. Rwy'n cytuno bod gan y Rhoddwr Benthyciadau'r hawl i gymryd camau cyfreithiol yn fy erbyn mewn unrhyw lys arall gydag awdurdod.

### Rhannu Gwybodaeth

15. Os ydw i'n torri'r telerau hyn ac/neu'r rheoliadau, rwy'n cytuno y gall y Rhoddwr Benthyciadau rannu gwybodaeth amdanaf a fy nghyfrif gydag unrhyw drydydd parti yn cynnwys y llywodraeth neu asiantaeth llywodraeth gwlad arall, allai helpu fy lleoli ac/neu helpu gweithredu i adfer unrhyw daliadau sy'n ddyledus.
16. Rwy'n cadarnhau ble rwyf wedi darparu unrhyw wybodaeth bersonol ynghylch unrhyw berson arall yn fy nghais am gyllid i fyfyrwyr, fy mod wedi gwneud hynny gyda'i ganiatâd neu ei chaniatâd.
17. Rwy'n deall y bydd SLC yn prosesu fy nata personol yn unol â'r hysbysiad preifatrwydd sydd ar gael ar [www.cyllidmyfyrwrycymru.co.uk/hysbyseb-preifatrwydd](http://www.cyllidmyfyrwrycymru.co.uk/hysbyseb-preifatrwydd) a allai gael ei ddiweddarau o bryd i'w gilydd.

### Lwfans i Fyfyrwr Anabl ("DSA")

Mae'r adran hon yn berthnasol os byddaf yn ymgeisio am DSA yn y flwyddyn academaidd hon.

18. Rwy'n deall y bydd rhaid defnyddio unrhyw offer a dderbyniad trwy Lwfans i Fyfriwr Anabl ar gyfer fy nghwrs astudiaeth a fy mod yn gyfrifol am dalu unrhyw gostau atgyweirio.
19. Rwy'n deall os byddaf yn cydsynio i SLC ddarparu ffynhonnell fy offer a chefnogaeth, y gall SLC dalu cyflenwyr unrhyw offer cymeradwy yn uniongyrchol.
20. Rwy'n deall gyda fy nghydsyniad, y gall SLC wneud taliadau i'r ganolfan asesu anghenion ar fy rhan.
21. Rwy'n deall gyda fy nghydsyniad y gall SLC wneud taliad uniongyrchol ar fy rhan i drydydd partiön yn darparu unrhyw wasanaeth neu gefnogaeth gymeradwy arall i mi.
22. Os nad ydw i'n cytuno i SLC dalu cyflenwyr offer, cefnogaeth neu wasanaethau eraill ar fy rhan, rwy'n deall y byddaf yn gyfrifol am

ddiwallu costau unrhyw offer, cefnogaeth neu wasanaethau cymeradwy eraill gan ddefnyddio fy lwfans DSA. Mae SLC yn cadw'r hawl i ofyn am dystiolaeth fy mod wedi derbyn offer, cefnogaeth neu wasanaethau eraill parthed fy DSA.

### Cyllid Amgen

23. Rwy'n cadarnhau nad ydw i wedi derbyn unrhyw fenthyciad (neu fenthyciadau) yn flaenorol ar gyfer gradd Doethuriaeth Ôl-raddedig dan y rheoliadau ac/neu ble darparwyd hyn allan o gronfeydd gan awdurdod arall o lywodraeth y Deyrnas Unedig. Dwi'n deall y gallai'r Benthyciwr ildio'r gofyniad hwn ble nad oeddwn yn gallu cwblhau fy nghwrs oherwydd rhesymau personol cymhellol.
24. Rwy'n cadarnhau na fyddaf ar unrhyw adeg yn ystod hyd llawn fy nghwrs yn derbyn unrhyw lwfans, bwrsariaeth na ddyfarniad o ddisgrifiad tebyg gan Ymchwil ac Arloesi yn y DU ac/neu Gyngor Ymchwil.
25. Rwy'n cadarnhau mewn perthynas â'm cwrs nad ydw i wedi fy nhalu nac wedi derbyn cyflwyniad o:
  - (i) fwrsariaeth gofal iechyd; ac/neu
  - (ii) unrhyw lwfans dan y Reoliadau Lwfansau Myfyriwr Nyrsio a Bydwreigiaeth (Yr Alban) 2007.
26. Rwy'n cadarnhau mewn perthynas â'm cwrs nad ydw i wedi fy nhalu nac wedi derbyn cyflwyniad o unrhyw lwfans, bwrsariaeth na ddyfarniad tebyg a wnaethpwyd dan adran 116(2)(a) Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 na dan adran 67(4)(a) y Ddeddf Safonau Gofal 2000, ac eithrio ble mae cyllid o'r fath parthed costau teithio. Rwy'n deall mai os dim ond costau teithio fydda i'n derbyn, y gallaf ymgeisio am fenthyciad.
27. Yn amodol ar baragraffau 23 - 26 uchod, rwy'n deall y bydd SLC yn cymryd unrhyw gamau angenrheidiol i adfer ad-daliad benthyciad ble rwy'n derbyn cyllid amgen.

### Cyfeirnod Cwsmer (os oes gennych un)

### Eich llofnod (mewn inc)

### Dyddiad heddiw

Dydd	Mis	Blwyddyn
<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>



## Adran 9 Cwblhau eich cais

**9.1** A ydych chi wedi ateb **pob** cwestiwn sy'n berthnasol i chi?

Naddo – os nad ydych yn cwblhau adran neu gwestiwn y gofynnwyd i chi wneud, gallai hyn oedi eich cais.

Do

**9.2** A ydych chi wedi llofnodi a dyddio eich telerau ac amodau yn Adran 8?

Naddo – rhaid i chi lofnodi'r telerau ac amodau, ni allwn brosesu eich cais heb hyn.

Do

**9.3** A ydych chi wedi cynnwys yr **holl** ddogfennau ategol neu wedi llenwi ffurflenni atodol y gofynnom amdanynt?

Efallai y bydd **Adrannau 1 a 4** yn gofyn i chi anfon dogfennau ategol yn ddibynnol ar eich sefyllfa.

Efallai y bydd **Adran 4** hefyd wedi eich cyfarwyddo i lenwi ffurflen atodol i ddarparu rhagor o wybodaeth.

Gwiriwch i sicrhau bod gennych yr holl ddogfennau cywir a'r ffurflenni atodol i gefnogi eich cais. Bydd y nodiadau yn rhoi gwybod i chi yn union beth ydych chi angen anfon yn ddibynnol ar eich sefyllfa.

Naddo – casglwch yr **holl** ddogfennau y gofynnom amdanynt cyn i chi ddychwelyd eich cais, ni fyddwn yn derbyn y cais hebddynt.

Do – nawr darllenwch yr wybodaeth ar y dudalen nesaf i gael gwybod ymhle a phryd i ddychwelyd eich ffurflen gais wedi ei llenwi.

# Sut i ddychwelyd eich cais am Fenthyciad Gradd Doethuriaeth Ôl-raddedig

## 1 – Oes gennych chi bopeth rydym angen?

Bydd angen i chi anfon yr holl ddogfennau ategol y gofynnem amdanynt ac unrhyw ffurflenni atodol y gofynnwyd i chi eu llenwi. Ni allwn brosesu eich cais hebddynt.

## 2 – Gwiriwch y pris postio

Sicrhewch fod yr hyn yr ydych yn ei anfon wedi ei bwyso ac y telir y pris postio cywir yn llawn.

**Cofiwch ofyn am brawf postio.**

## 3 – Dychwelwch eich cais mewn pryd

Anfonwch eich cais wedi ei gwblhau cyn gynted â phosibl i wneud yn siŵr fod eich cyllid yn ei le ar ddechrau eich cwrs.

Dylid ei anfon at:

**Cyllid Myfyrwyr Cymru**

**Blwch Post 211**

**Cyffordd Llandudno**

**LL30 9FU**

**Os nad ydych yn anfon eich cais atom cyn y dyddiad cau, ni fyddwch yn gymwys i gael cyllid.**

## **Dyddiad cau**

Mae'r dyddiad cau naw mis wedi diwrnod cyntaf blwyddyn olaf eich cwrs.